# Llygad Barcud

## Cylchgrawn Cymdeithas Ted Breeze Jones



### Rhifyn 50 - Gaeaf 2023-24

# GOLYGYDDOL

Wel, mae gennym achos i ddathlu. Hwn yw yr hanner canfed rhifyn o Llygad Barcud, ac mae'r Gymdeithas ei hun wedi bod yn cynnal gweithgareddau ers dros ugain mlynedd bellach. Diolch i Huw Dafydd am yr adroddiad eitha' llawn yn y rhifyn hwn am sefydlu, a dyddiau cynnar Cymdeithas Ted Breeze Jones a'i hynt hyd ein dyddiau ni. Dwi'n, siwr ein bod ni i gyd wedi cael mwynhad, addysg a phleser ar y teithiau, fel yn y darlithiau gyda'r nos, dros y blynyddoedd ac wedi gwneud ffrindiau da wrth gymdeithasu. Cymdeithas fechan, gymdeithasol fuom ni o'r cychwyn, a does dim byd gwell na hynny onidoes?

Diolch hefyd i'n harweinyddion teithiau, darlithwyr a chyfranwyr i Llygad Barcud dros y blynyddoedd. Mae'r cylchgrawn yn gronfa werthfawr o wybodaeth am adar a bywyd gwyllt yng Nghymru ac ar draws y byd erbyn hyn. Gallwch gyrchu ôl rifynnau'r cylchgrawn ar ein gwefan erbyn hyn, a dwi'n siwr y bydd ail-ddarllen yr erthyglau yn dod ag atgofion melys i lawer ohonom. Ond cofiwch, rydym yn hollol ddibynol arnoch chi am ddeunyddiau i lenwi'r tudalennau. Felly, beth am fynd ati i lunio ryw 'chydig eiriau, un ai am yr hyn roddodd y Gymdeithas ichi - yn deithiau nodedig, rhai profiadau adaryddol wnaeth argraff arnoch, ambell lun, neu ryw hanesyn difyr y daethoch ar ei draws mewn hen gylchgrawn neu bapur newydd.

Blwyddyn Newydd Dda ichi i gyd, a gobeithio y daw adar i ganu a nythu yn eich gardd ac y cawn gyfarfod yn gwmni dedwydd eto, yn fuan.


**Swyddogion**

**Llywyddion Anrhydeddus**: Iolo Williams ac Anwen Breeze Jones
**Cadeirydd**: Twm Elias (twm.elias@gmail.com)
**Trysorydd**: Huw Dafydd
**Ysgrifennydd**: Gareth Jones, Bryn Eithin, Yr Ala, Pwllheli LL53 5BN, 01758 614470
**Golygyddion Llygad Barcud**: Twm Elias a Gareth Jones (pwllheli@gmail.com)
**Cyfeiriad cyswllt cyffredinol**: gwefeistr@cymdeithastedbreezejones.org.uk


## Cynnwys:



Bwriad a Chychwyn y Gymdeithas *Huw Dafydd* ............ 3
Teithiau a gweithgareddau cynnar *Huw Dafydd* ............ 6
Atgofion Adaryddol *Twm Elias* ............ 13
Dyddiaduron William Bulkeley *Dewi Lewis* ............ 21


Cynigir **10%** o ostyngiad i aelodau'r Gymdeithas yn siop **Cotswold, Betws-y-Coed**


Cyfrannwch i'n gwefan a chwiliwch drwy ôl-rifynnau Llygad Barcud
**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**
Edrychwch ar yr holl luniau o'n teithiau ar
**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk/lluniau.html**

# Bwriad a Chychwyn y Gymdeithas

Mae’r poster a ddangosir yma yn hysbysebu yr achlysur a ddefnyddiwyd i lansio Cymdeithas Ted Breeze Jones yn y Ganolfan ym Mhorthmadog ar Dachwedd 18$^{fed}$, 2003.


Cymdeithas Ted Breeze Jones
– er budd adar a byd natur
yn cyflwyno:
“Ac Anifeiliaid y Maes Hefyd”
Yr Athro Gwyn Thomas, Bangor
yn cyflwyno ei gerddi a sleidiau Ted Breeze Jones
yn
Y Ganolfan
Porthmadog
am 7.30pm
Nos Fawrth, Tachwedd 18fed, 2003
*Mynediad am ddim!!*
Bydd cyfle ichi ymaelodi (os dymunwch) â Chymdeithas Ted Breeze Jones, derbyn ein Rhaglen Weithgareddau am y Gaeaf 2003 – 4 a dysgu am ein cynlluniau i’r dyfodol.
DEWCH YN LLU!

Bu sawl cyfarfod cyn hyn i drafod a chynllunio bwriadau ac amcanion y Gymdeithas dan gadeiryddiaeth Twm Elias ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog, gyda Non Tudur fel yr ysgrifennydd/cynullydd cychwynnol. Oherwydd galwadau gwaith bu'n rhaid iddi roi’r gorau i’r swydd ym mis Mai a bu’r Gymdeithas heb ysgrifennydd parhaol am gyfnod byr cyn y bu’n bosibl penodi ysgrifennydd parhaol. Camodd Rhys Jones i lenwi’r bwlch am y cyfnod byr hwnnw. Wrth nodi cyfarfod agoriadol y Gymdeithas, mae’n werth nodi fod llyfr arbennig wedi ei gyflwyno ar y noson, a bod y Gymdeithas wedi derbyn nawdd gan yr Academi Gymreig dan gynllun Awduron ar Daith i gynnal y cyfarfod hwn. Mae’r llyfr a gyflwynwyd yn gyfuniad arbennig o gerddi y diweddar Athro Gwyn Thomas a lluniau trawiadol y diweddar Ted Breeze Jones.




Ym mhwyllgor llywio’r Gymdeithas ar Fai 7$^{fed}$ ym Mhlas Tan y Bwlch, 'roedd y canlynol yn bresennol:- Anwen Breeze Jones, Twm Elias, Phil Gaffey, Geraint George, Rhys Jones, Tom Jones (Golan), Kelvin Jones, Tecwyn Williams a Maggie Gofton, (Clwb Adar Glaslyn), Richard Farmer (RSPB), Elinor Gwyn a Steffan Gwyn, Sara Jones, Dei Tomos, Gwilym Tudur, Non Tudur ac Iwan Roberts. Cafwyd ymddiheuriadau gan Ifor Gwyn, Haf Meredydd, Wil Tomos, Iolo Williams Duncan Brown a Dafydd Watts. Yn y cyfarfod hwn y sefydlwyd pwyllgor cyntaf y Gymdeithas. Etholwyd Twm Elias yn gadeirydd, ac mae yn y swydd ers ugain mlynedd bellach, Non Tudur yn ysgrifennydd a Kelvin Jones yn drysorydd (dros dro). Aelodau eraill y pwyllgor oedd Dei Tomos, Rhys Jones, Geraint George, Anwen Breeze Jones a Sara Jones.

Gohiriwyd cyfarfod cyntaf y pwyllgor o Fehefin 4$^{ydd}$ hyd at Orffennaf 2$^{il}$, pryd y lluniwyd ‘Cyfansoddiad’ y Gymdeithas. Mae’n ymddangos fod aelodau eraill wedi eu gwahodd i’r pwyllgor hwn gan gynnwys Dafydd Watts, Iwan Roberts a Tom Jones, Golan. Rhys Jones oedd yn cofnodi. Wedi’r cyfarfod cyntaf gwelwn fod taflen wedi ei pharatoi er mwyn cyflwyno’r Gymdeithas i’r cyhoedd. Dangosir honno yma, ac fel y gwelwch, Anwen Breeze Jones fu’n gyfrifol am y gwaith hwnnw - fel ag yr oedd hi am yr aelodaeth hefyd ar y cychwyn.

Cafodd Brian Paul ei wahodd i ail gyfarfod Pwyllgor y Gymdeithas ar Fedi 9fed, 2003. Dyma pryd y derbyniodd Brian swydd y trysorydd. Gwnaeth Brian y gwaith yn gydwybodol dros gyfnod o dair blynedd ar ddeg, o 2003 hyd at 2016, ac fe'i anrhydeddwyd am ei waith drwy ei wneud yn Aelod Anrhydeddus o'r Gymdeithas.

Aflwyddiannus eto fu'r ymgais i benodi ysgrifennydd, ond er hyn fe lwyddwyd i drefnu'r cyfarfod i lansio'r gymdeithas newydd yn y Ganolfan ym Mhorthmadog efo'r Athro Gwyn Thomas. Rhys Jones eto gofnododd faterion y pwyllgor. Cytunwyd hefyd yn y pwyllgor hwn i agor cyfrif banc gyda'r HSBC ym Mhenrhyndeudraeth gan fod yno wasanaeth yn y Gymraeg, ac fe roddwyd y gwaith o gynllunio logo yn seiliedig ar wyneb tylluan wen gyda'r geiriau 'Cymdeithas Ted Breeze Jones' i Helen Llinos (Adran Ddylunio, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

Yn fuan wedi penodi Brian fel trysorydd, fe ymddangosodd y ffurflen ymaelodi ganlynol, a chofiaf yn iawn lenwi ffurflen o'r fath ugain mlynedd yn ôl. Diddorol yw sylwi ar y taliadau aelodaeth bod oedolyn yn £5, teulu yn £8 a phlant yn £2. Mae'n rhyfedd nodi fod tâl aelodaeth ar gyfer plentyn oherwydd fod pob plentyn yn rhan o deulu. Ni welwyd aelodaeth 'plentyn' ar ôl hynny.

Cymdeithas Ted Breeze Jones
- ar gyfer adarwyr a naturiaethwyr Cymreig

Bwriad Cymdeithas Ted Breeze Jones yw hybu ymwybyddiaeth o adar a byd natur yng Nghymru drwy weithgareddau o bob math a chydweithio a chyrff eraill i gyrraedd yr un nod. Byddwn yn rhoi cyfleon ymarferol i blant ac oedolion i ymuno â theithiau maes, cymeryd rhan mewn arolygon adar a bywyd gwyllt ac yn darparu rhaglen o ddarlithiau dros y gaeaf. Bydd cystadlaethau a chyfleon i wneud gwaith eich hun gartref hefyd – yn yr ardd neu mewn gwarchodfa leol er budd i adar a bywyd gwyllt.

Os ydych yn dymuno ymaelodi â Chymdeithas Ted Breeze Jones a derbyn mwy o wybodaeth am ein gweithgareddau yna llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd, ynghyd â'r arian priodol i'r Trysorydd.

.................................Torrer yma.................................

*Ffurflen Ymaelodi – Cymdeithas Ted Breeze Jones*

Mae'r flwyddyn aelodaeth yn ymestyn o Tachwedd 1 hyd Hydref 31.
Dyma'r tâl aelodaeth blynyddol:
£2.00 i blentyn; £5.00 i oedolyn; £8.00 i deulu.

Dymunaf/dymunwn ymaelodi â Chymdeithas Ted Breeze Jones.
Amgaeaf siec o £.......... yn daladwy i'r Gymdeithas.

Llofnod..................................
Dyddiad..................................

Enw(au):..................................
Cyfeiriad:..................................
..................................
..................................
Côd post:..................................
Rhif Ffôn:..................................
e-bost:..................................

Dychweler y ffurflen a'r tâl priodol at:
D. Brian Paul,
Tŷ Fry,
Penrhyndeudraeth,
Gwynedd LL48 6RT

Yn dilyn y cyfarfod lansio ar Dachwedd 18, fe ymddangosodd y toriad canlynol yn y cylchgrawn 'Golwg' ar Dachwedd 27ain 2003.

## Cymdeithas adar er cof am Ted Breeze

Mae cymdeithas nabod adar newydd yn gobeithio denu plant a phobol ifanc i gymryd diddordeb ym myd natur.

Fe gafodd Cymdeithas Ted Breeze Jones ei sefydlu ym Mhorthmadog yr wythnos ddiwetha' i ddathlu'r cyfraniad a wnaeth y ffotograffydd, yr awdur a'r adarwr o Flaenau Ffestiniog.

"Mae'r Gymdeithas yma'n llenwi bwlch aruthrol," meddai Twm Elias, Cadeirydd y Gymdeithas newydd, a fydd yn trefnu gweithgareddau Cymraeg yn yr ardal.

"Mae'r cwricwlwm addysg yn delio â phrosesau ecolegol yn hytrach na nabod pethau," meddai Twm Elias.

"Mae llawer llai o athrawon yn mynd â phlant allan i nabod byd natur. Mae'r pwyslais ar ddysgu am bethau fel y gadwyn fwyd.

"Ers diwedd yr 1980au a dechrau'r 1990au - oes aur cyhoeddi byd natur yn Gymraeg - mae'r ddarpariaeth yn llawer iawn gwaelach o ran gwerthfawrogi byd natur," meddai, "ac mi rydan ni'n ymwybodol iawn o'r diddordeb a'r angen i lenwi'r bwlch."

Fe fydd y Gymdeithas yn cydweithio gyda chyrff fel yr RSPB, Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chymdeithas Edward Llwyd, a'r bwriad tymor hir yw agor canolfan adar ym Mhorthmadog er cof am Ted Breeze Jones.

"Bwriad y Gymdeithas yw'r pontio'r gagendor nes cawn ni'r ganolfan i gadw'r peth yn fyw," meddai gweddw Ted Breeze Jones, Anwen Breeze Jones. "Yna bydd y Gymdeithas yn toddi i mewn i'r ganolfan."

Dyma ddywedodd Twm Elias yn yr e-bost a anfonodd at aelodau'r pwyllgor-


*Annwyl bawb, Wel, rydym yn lawnsiedig bellach! Da ynte! Ac fe aeth pethau'n iawn ar noson y 18fed - rhyw 70 i 80 o gynulleidfa a phawb i'w gweld yn mwynhau. Hwyl, Twm.*

Cynhaliwyd y pwyllgor nesaf ar yr 8fed o Ragfyr gyda'r canlynol yn bresennol: Twm Elias, Anwen Breeze Jones, Dafydd Watts, Aran Jones, Kelvin Jones, Dafydd Roberts, Gwen Thomas, Brian Paul, Rhys Jones, Duncan Brown a Rhodri Dafydd. Cafwyd ymddiheuriadau gan Dewi Lewis, Dei Tomos, Geraint George,

Tom Jones, Sara Jones, Gwilym Roberts ac Iwan Roberts. Pwyllgor llawer mwy, a gwahanol iawn i'r pwyllgor gwreiddiol a enwyd ar y cychwyn. Ta waeth, daeth pethau yn sicr i'w lle yn dilyn y pwyllgor hwn. Penodwyd Rhodri Dafydd yn ysgrifennydd a gwyddom am ei ymroddiad dros ddeg mlynedd cyntaf y Gymdeithas. Pwy all anghofio'r cwis blynyddol a gyflwynai yn y Gynhadledd Flynyddol? Dyma pryd y derbyniwyd y logo a gynlluniwyd gan Helen Llinos, a chytunwyd ar y gosodiad oedd i ymddangos ar ben llythyrau'r Gymdeithas (gweler isod).

Lluniwyd y rhaglen gyntaf o weithgareddau, a dangosir hwy yn y daflen hon. Mae'n amlwg fod brwdfrydedd heintus ar y cychwyn ac yn wir fe lwyddwyd i gynnal y brwdfrydedd yma dros y blynyddoedd hyd nes daeth cyfnod Covid i lesteirio ysbryd pawb a phopeth.

A dyna gychwyn Cymdeithas Ted Breeze Jones. Dros y blynyddoedd cynhaliwyd 130 o deithiau, heb, yn anffodus, yr un yn 2020 a 2021 oherwydd yr ynysu gorfodol. Cafwyd y nifer mwyaf o deithiau, sef 11, yn y blynyddoedd 2016 a 2017. Yn sicr mae rhai o'r teithiau hynny yn sefyll yn y cof. Sefyll yn y cof oherwydd y gwmnïaeth - cwmnïaeth na chawn ei thebyg eto - ac wrth gwrs , oherwydd yr aderyn prin hwnnw na welwyd gennym cyn hynny.



Cymdeithas Ted Breeze Jones
- er budd adar a byd natur

RHAGLEN WEITHGAREDDAU, GAEAF 2003 – 04

Tachwedd 18fed - "Anifeiliaid y Maes Hefyd", Yr Athro Gwyn Thomas, Y Ganolfan, Porthmadog, 7.30pm

Rhagfyr 13eg - *Taith maes:* Adar y Cob. Cyfarfod ger Recordiau'r Cob, Porthmadog, 10.30am. Arweinydd: Twm Elias

Rhagfyr 18fed - Y Gigfran, yr Eryr, y Dryw a'r Ddylluan – eu lle yn ein llên gwerin, Twm Elias, Y Stablau, Plas Tan y Bwlch, 7.30pm

Ionawr 20fed - Bywyd Gwyllt De Georgia, Dafydd Roberts, Y Stablau, Plas Tan y Bwlch, 7.30pm

Ionawr 24ain - *Taith maes:* Adar Malltraeth. Cyfarfod ger Cob Malltraeth, 10.30am. Arweinydd: Rhys Jones

Ionawr 24 – 25ain - Ymgyrch Fawr Gwylio Adar Gardd, yr RSPB. Manylion a phecyn gwybodaeth: (0870 6010215)

Chwefror (i'w drefnu) - *Cyfarfod maes*: Modrwyo adar. Arweinyddion: Kelvin Jones a Dafydd Roberts (01766 771210)

Chwefror 26ain - Adar Aride (Y Seychelles), Rhys Jones, Y Stablau, Plas Tan y Bwlch, 7.30pm

Mawrth 17eg - Y Gnocell Werdd, y Bele Goed ac Arolygon Eraill o Fywyd Gwyllt yn Eryri, Kate Williamson, Y Stablau, Plas Tan y Bwlch, 7.30pm

Mawrth 27ain - *Taith maes:* Aber a Choedydd y Fawddach. Cyfarfod ym maes parcio'r RSPB, Pwll Penmaen, Dolgellau, 10.30am. Arweinydd; Ann Thomas

Ebrill 22ain - Adar y Gerddi – Ffeithiau i'ch Rhyfeddu, Dewi E Lewis, Y Ganolfan, Porthmadog, 7.30pm

Mai 8fed - *Taith. maes:* Adar Borthygest (ar y cyd â Chymdeithas Edward Llwyd). Cyfarfod ym maes parcio'r harbwr, 10.30am. Arweinydd: Twm Elias

Mai 15fed - *Taith maes:* Adar Pen Llŷn. (ar y cyd â Chymdeithas Edward Llwyd). Cyfarfod ym maes parcio Porthmeudwy, Aberdaron, ~~10.30~~ 9.00am, Arweinydd: Rhys Jones

***Mwy o fanylion: Twm Elias, Plas Tan y Bwlch 01766 590324***

**Huw Dafydd**

## *Teithiau a gweithgareddau cynnar cofiadwy*

Wrth ystyried y 130 o deithiau dros gyfnod o ugain mlynedd, a minnau wedi bod ar dros 100 ohonynt, mae rhywbeth am bob un o'r teithiau hynny yn aros yn y cof. Trefnwyd llawer o'r teithiau cynnar ar y cyd efo Cymdeithas Edward Llwyd [lle yr oedd Tom Jones (Golan) yn gyswllt arbennig] ac hefyd Ardal o Harddwch Naturiol




*Y llun cyntaf o'r daith gyntaf ym Mhorthmadog*

Pen Llŷn.



*Twm Elias a John Parry yn edrych dros Fae Tremadog*

Ychydig wythnosau cyn y Nadolig yn flynyddol ers cychwyn y Gymdeithas trefnwyd taith o amgylch y Cob Crwn ym Mhorthmadog ac ymlaen i Borth y Gest. Yn 2023, bu'n rhaid ei chanslo oherwydd tywydd anffafriol, ond mae'r daith gyntaf honno yn 2003 yn daith y gellir ei hystyried yn holl bwysig yn hanes y Gymdeithas. Dyma grynodeb o'r daith honno. Mae'r hanes gwreiddiol yn ymddangos, mewn du a gwyn, yn Llygad Barcud rhif 1, Gwanwyn 2004.

Dan arweiniad Twm Elias, cafwyd taith o amgylch y Cob Crwn ac ymlaen ar hyd llwybr yr arfordir i Borth y Gest. Cafwyd trafodaeth am y cynlluniau oedd ar y gweill i adeiladu Canolfan Adarydda Genedlaethol yn yr ardal er cof am Ted Breeze Jones.

Gyda chymaint o law wedi disgyn yn ystod y diwrnodau blaenorol, 'roedd y Traeth Mawr yn un llyn anferth, a hawdd oedd dychmygu sut yr edrychai'r ardal cyn i William Maddocks adeiladu'r Cob yn 1811. (Yn 2011, i ddathlu dau ganmlwyddiant adeiladu'r Cob, bu'r Gymdeithas yn weithgar yn paratoi taflen wybodaeth liwgar am adar y Cob.)

Ymysg yr adar a welwyd ar daith 2003 'roedd gylfinirod, cornchwiglod, chwiwellod, gïachod, gwyach bach a bilidowcar neu ddau. Heb amheuaeth, yr uchafbwynt oedd gweld fflach sydyn o las llachar ac oren tanbaid. Do wir, gwelwyd glas y dorlan yn gwibio ar hyd ymyl y llwybr.

Tynnodd Twm ein sylw at weddillion cannoedd o gregyn gleision a oedd wedi eu malu'n deilchion a'u gwasgaru ar hyd llwybr tarmac y Cob. O ble daeth y rhain tybed? Wel, brain a gwylanod sy'n eu cludo o lan y môr i'r gofod uwchben y llecyn yma, ac yna 'n eu gollwng o gryn uchder fel eu bod yn malu ar yr wyneb caled a'r cynnwys yn rhoi pryd bach digon blasus i aderyn llwglyd.

Wrth gerdded yn ôl tua chanol y dref, beth a welwyd yn nŵr heli y Cob Crwn ond pen morlo llwyd busneslyd. Mae'n debyg fod yr hen forlo i'w weld yma o bryd i'w gilydd, er nad yw'n mentro'n llawer pellach i fyny afon Glaslyn.

Aethpwyd ymlaen ar hyd llwybr y glannau i Borth y Gest. Erbyn hyn 'roedd y gwynt wedi chwythu ymaith gymylau'r bore ac 'roedd awyr las a heulwen isel mis Rhagfyr i'w gweld tua'r Gorllewin.

Ar y traeth ym Mhorth y Gest cafwyd cyfle i weld amrywiaeth pellach o adar gan gynnwys heidiau bychain o bibyddion coesgoch a phïod y môr. Dysgwyd am y

gwahaniaethau rhwng pibydd y mawn a phibydd yr aber. Wedi cerdded ymhellach o amgylch yr arfordir gwelwyd trochyddion a hwyaid pengoch yn nofio'n chwareus ar aber afon Dwyryd.

Nodwyd fod yr ardal honno, lle'r oedd llif y ddwy afon –Glaslyn a Dwyryd – yn cyrraedd dŵr hallt y môr, yn un hynod o gyfoethog o ran bywyd gwyllt.

Yn sicr, cafwyd diwrnod a hanner yn llawn profiadau da, cwmni difyr, ac ychwanegwyd at wybodaeth pawb. Hyn oll trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dros y blynyddoedd mae'r Gymdeithas wedi mentro tair taith go faith i Martinmere ger Ormskirk yn Swydd Gaerhirfryn. Trefnwyd y gyntaf ar Ionawr 8fed 2005 gan Tom Golan ar y cyd â Chymdeithas Edward Llwyd. Mae crynodeb o'r daith yma yn dilyn. Daeth yr ail daith ym mis Mawrth 2015 gyda Twm Elias yn gyrru bws mini'r Parc Cenedlaethol yr holl ffordd drwy strydoedd Lerpwl – tipyn o ddreifiwr ym marn y rhai hynny fentrodd ar y daith. Digwyddodd y ddwy daith yma cyn clywed sôn am y Cofid a'i gyfyngderau ac mae'n hyfryd hel atgofion am y dyddiau di-bryder hynny. Wyth mlynedd fu'r aros am daith arall i Martinmere, ac fe wnaed hynny er cof am Dewi Jones, Blaenau Ffestiniog. Bu Dewi yn un o'r aelodau ffyddlonaf i deithiau'r Gymdeithas a bu ei ymadawiad disymwth yn syndod mawr i'r rhai oedd yn ei adnabod. Diolch i Megan, ei weddw, am ofalu ein bod yn cael y daith yma i gofio am ei frwdfrydedd a'i gyfeillgarwch. Braf oedd cael cwmni Megan ar y daith.

***Y daith gyntaf i Martinmere.***

Wedi cychwyn o Borthmadog am 7 o'r gloch y bore, aeth 28 ohonom ar fws Seren Arian drwy dwnnel Merswy gan gyrraedd Canolfan Martinmere mewn tywydd gwyntog ofnadwy ganol y bore. Gweddai caban pren y ganolfan, gyda'i do tyweirch, i'r dim i'w amgylchfyd ar y tirwedd fflat. Cynlluniwyd yr adeiladau yn Norwy, a chyda boncyffion o bren sbriws oedd wedi eu rhifo yn ofalus yn Norwy cyn eu hallforio yr adeiladwyd y Ganolfan yn Martinmere. Mae yno ystafelloedd addysg, caffi, sinema a siop yn rhan o'r ganolfan, i gyd â golygfa dros un o'r llynnoedd bychain a grëwyd yno. Yn y llynnoedd hyn gwelwyd amrywiaeth o adar dŵr. Ymysg y gwyddau gwelwyd yr ŵydd wyllt , gŵydd Canada, yr ŵydd droedbinc, yr ŵydd wyran, yr ŵydd frongoch a'r ŵydd Eifftaidd. Yno, hefyd, 'roedd adar fel y garan a'r fflamingo.

Mae Martinmere yn un o naw canolfan sydd dan ofal y Wildfowl & Wetlands Trust. Un yn unig sydd yng Nghymru, sef Penclawdd, ger Llanelli. Sefydlwyd y gyntaf o'r naw yn Slimbridge yn 1946 gan Syr Peter Scott, ac mae'r paentiadau a wnaeth yn y blynyddoedd cynnar hynny o'r hwyaid a'r gwyddau a ymwelai â Slimbridge yn fyd-enwog.

Cadwraeth a datblygu bioamrywiaeth yw nod yr ymddiriedolaeth, a gwelwyd ôl ymdrechion yr ymddiriedolaeth i'r perwyl hwn mewn rhan newydd o'r warchodfa. Ym mis Tachwedd 2004 agorwyd cuddfan newydd (yr 'Harrier Hide') i

edrych dros gorsdir a luniwyd ac a ail-blannwyd â hesg er mwyn darparu amodau i ail-sefydlu magwrfa i dderyn y bwn.

Heb amheuaeth, 'roedd niferoedd elyrch y gogledd yn syfrdanol. ’Roedd ffigyrau Ionawr 2005 yn amcangyfri 2100 ar gyfer y safle. Ymysg y rhain yr oedd



10 i 12 o elyrch Bewick. Alarch Bewick (ar y dde) yw’r lleiaf o’n helyrch, ac er fod lliw melyn ar big y Bewick fel y mae ar big alarch y Gogledd (ar y chwith), gellir gwahaniaethu rhyngddynt gan fod llai o felyn ar big y Bewick, ac mae siâp corff y Bewick yn debycach i ŵydd.



Gwelodd rai ddryw eurben, eraill ditw penddu. Gwelwyd haid o bibyddion torchog a hebog tramor. Un aderyn bychan a wnaeth argraff ar y cwmni oedd golfan y mynydd. Wrth ddychwelyd i’r bws am y daith adref, rhifai y nifer gwahanol o rywogaethau a welwyd yn 46.Taith lwyddiannus iawn a diolch i Tom am ei threfnu.

***Teithiau cynnar eraill***

Wrth ystyried yr holl deithiau daw llawer iawn o atgofion melys yn ôl, ac wrth sgwrsio â hwn a’r llall am y teithiau mae’r geiriau ‘wyt ti’n cofio pan fuo ni yn y lle a’r lle?’ yn amlwg iawn. Dyma luniau a sylwadau am rai o’r teithiau cynnar hynny.

Un o’r teithiau cynharaf oedd honno ar Fai 15fed 2004 i Borth Meudwy ac arfordir Pen Llŷn dan ofal Rhys Jones. Y daith wedi ei threfnu ar y cyd eto efo Cymdeithas Edward Llwyd. Defnyddiwyd y llun a ddangosir isod ar daflen liwgar ar gyfer ymaelodi a gynhyrchwyd yn gynnar yn 2005.



*Rhys yn arwain y daith ym Mhorth Meudwy a chriw ifanc yn mwynhau ei gwmni*



*Arfordir Llŷn - edrych draw am Enlli*

Gwelodd 2005 y Gymdeithas yn cymryd stondin ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol. Trefnwyd stiwardiaid am yr wythnos gyfan a dangoswyd cryn ddiddordeb yn y Gymdeithas yn ystod yr wythnos honno. Trueni yw fod cost archebu stondin yn yr Eisteddfod y tu hwnt i adnoddau'r Gymdeithas. Dau o'r gwirfoddolwyr oedd Anwen Breeze Jones a Duncan Brown, y ddau wedi bod yno ar y cychwyn yn sefydlu'r Gymdeithas.



*Duncan Brown ac Anwen Breeze Jones ar stondin y Gymdeithas yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor*



Atgof arall yw am y ddau achlysur y bu'r Gymdeithas yn cynnal arolwg o adar Porthmeirion. Cynhaliwyd arolwg o adar y gaeaf ym mis Chwefror 2006 ac arolwg o adar y Gwanwyn ym mis Mai yr un flwyddyn. Llywiwyd yr arolwg gan Twm Elias a Rhodri Dafydd. Profiad arbennig oedd cael crwydro'r gerddi a'r Gwyllt yno.

Nodwyd eisoes fod teithiau wedi eu trefnu ar y cyd gydag 'AHNE Llŷn. Cynhaliwyd un o'r teithiau hynny i Nant Gwrtheyrn fel rhan o ddathliad hanner can mlwyddiant gwneud Pen Llŷn yn ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ym mis Mai 2007.




*Ymgynnull yn y maes parcio uwchben y Nant*

I'r rhai hynny oedd ar y daith mae'n debyg mai gweld nythaid o wyau cwtiad torchog ar y traeth caregog oedd uchafbwynt y daith, heb sôn am y twrci oedd wedi goroesi y Nadolig blaenorol!



*Wyau cwtiad torchog ar y traeth caregog*






*Gwylogod yn eu miloedd ar greigiau Ynys Lawd. Ambell i Lyrs yn eu canol.*

Mae'r Gymdeithas wedi cyfarfod sawl gwaith ger Caergybi. Mae teithiau wedi eu cynnal sawl gwaith i ymweld â thŵr Elin ar ynys Lawd i weld yr amrywiaeth o adar y môr yn nythu yn rhesi ar y creigiau islaw. Ar un o'r teithiau hyn aethom ymlaen i hen borthladd Caergybi lle y gwelwyd gwylogod duon am y tro cyntaf gan lawer o'r aelodau.



*Gwylogod duon oedd yn nythu yn hen harbwr Caergybi*


Gobeithio fod yr ychydig sylwadau hyn am rai o deithiau cynnar y Gymdeithas wedi dwyn atgofion melys i'r rhai hynny oedd ar y teithiau hynny. Cyn gorffen mae'n rhaid sôn am ddwy noson arbennig a 'hanesyddol' a gafwyd ym Mhlas Tan y Bwlch. Dyma adroddiad a ymddangosodd yn Llygad Barcud rhif 4 am y noson gyntaf honno:-




*'Roedd nos Lun y 26ain o Ionawr yn noson oer a thywyll y tu allan, ond y gwrthwyneb oedd yn wir am Stablau Tan y Bwlch – oblegid y tu mewn yr oedd hi'n olau a chynnes, gyda lampau llachar yn goleuo a gwresogi'r ystafell. Ac os oedd sêr i'w gweld yn y ffurfafen, yr oedd 'na hefyd sêr y tu mewn! Criw ffilmio 'Wedi 7' oedd wedi cyrraedd, a'u lori fawr wedi ei pharcio y tu allan gyda soser anferth ar ei tho wedi ei hanelu at ryw loeren bellennig. Y tu mewn, 'roedd Heledd Cynwal wrthi'n holi seren y noson hon – sef Iolo Williams, yr adarwr adnabyddus – a llywydd anrhydeddus Cymdeithas Ted Breeze Jones.*

Yr achlysur oedd noson i lansio **Llyfr Adar Iolo.**

Noson arall arbennig oedd nos Iau Hydref 11$^{eg}$ , 2007, pryd y lansiwyd llyfr arall o eiddo Iolo a'i gyd-awdur , Bethan Wyn Jones. Mae'r llyfr hwn eto yn un o drysorau byd natur yr iaith Gymraeg. Diolch i'r ddau ohonynt am y cyfrolau hyn.




A dyna ychydig atgofion am flynyddoedd cyntaf y Gymdeithas. O! A beth am ein hymweliadau ag RSPB Conwy; gweilch Dyfi; gweilch Glaslyn; Tal y Sarn, Dinorwig a Llanberis efo Gareth Jones (Adar Eryri); Cwm Penamnen; Malltraeth; Aberdesach a'r Foryd; Dinas Dinlle a Thrwyn Belan yng nghwmni Ifor Williams; Parc Gwledig Morglawdd Caergybi; Castell y Bere, Craig y Deryn a dyffryn Dysynni; Llyn Tegid a Llyn Llanwddyn; coetiroedd Llandecwyn; Cwm Ystradllyn; Tan y Bwlch a Llyn Mair; y Migneint; Morfa Nefyn a Phorthdinllaen; Betws y Coed a Llyn Elsi; Parc Glynllifon a Pharc Padarn; Pen y Gogarth; Craig y Benglog a'r cyffiniau yn Rhydymain; Traeth Lafan ac Aber Ogwen; Ynys Las a Llandanwg; Coed Cymerau efo'r diweddar Dewi Jones a Chwm Cywarch efo'r diweddar Alun Owen. Dyna drysorfa o leoliadau a phrofiadau oesol. Gyda'r ofnau a ddaeth yn sgîl y Cofid mae pob cymdeithas wedi wynebu sefyllfa na welwyd ei bath yn flaenorol. Ein gobaith yw y daw pethau i drefn unwaith eto ac y cawn eto fwynhau yn llawn yr hyn oedd gennym o'r blaen.



*Owain Elias a llond bocs o'r cyfrolau newydd sbon danlli*

**Huw Dafydd**



*Iolo'n sgwrsio ac yn arwyddo copi o'i lyfr.*



*Cinio blasus ar y daith ym Mhorthmeirion*

# *Crëyrod y gwartheg*



Uchafbwynt ym myd yr adar gwyllt ar y Traeth Mawr yn ystod 2023 oedd ymddangosiad haid o **grëyrod y gwartheg** yn yr hydref. Mi rydym bellach yn gyfarwydd gyda heidiau o **grëyrod bach** ar aberoedd Glaslyn a Dwyryd. Bydd hyd at gant o'r rheini yn clwydo ar Gei Balast wrth yr harbwr ym Mhorthmadog bob nos, ar ôl bod yn bwydo ar yr aber ac ar y caeau ac yn y ffosydd yn ystod y dydd. Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r **crëyr mawr gwyn** hefyd wedi dod yn aderyn cyfarwydd ar gorsydd Afon Glaslyn a bydd hyd at bedwar ohonynt i'w gweld yng nghyffiniau Porthmadog. Ond golygfa annisgwyl oedd honno a welais ar Hydref 18fed 2023, sef tri o **grëyrod y gwartheg** yn bwydo yn y caeau ger Cob Crwn. Tri i ddechrau, yna pedwar ac erbyn Hydref 31ain roedd chwech ohonynt yn bwydo ar y Traeth Mawr.

Cofiaf yn iawn ddarganfod y crëyr y gwartheg cyntaf i'w weld ar Y Traeth Mawr ar Dachwedd 20fed, 2009. Roedd yn bwydo ar un o'r caeau ger y Cob Crwn ym Mhorthmadog ac yn mynd i glwydo yn y coed ar Gei Balast ger Harbwr Porthmadog bob noson. Arhosodd yma am dridiau cyn symud ymlaen. Roedd yr unigolyn yma wedi ei weld yn Nhywyn yn gynharach yr un mis. Hwn oedd y cofnod cyntaf o grëyr y gwartheg ym Meirionnydd.

Bu'n rhaid aros wedyn tan Hydref 28, 2018 cyn i'r ail grëyr y gwartheg ymddangos ar y Traeth Mawr. Roedd yr unigolyn hwn yn dilyn yr un drefn â'r un cyntaf a welais yma, sef bwydo ar y caeau ger y Cob Crwn cyn mynd i glwydo ar Gei Balast gyda'r crëyrod bach.

Ar Fawrth 30, 2023 gwelais grëyr y gwartheg yn ei liwiau haf ar Llyn Bach ym Mhorthmadog. Roedd hi'n rhyfedd gweld un yn clwydo ar y mwd yma. Nid

dyma'r cynefin arferol i grëyrod y gwartheg, sydd fel arfer i'w gweld ar gaeau gwair gyda gwartheg, wrth gwrs.



Cofiaf yn iawn fynd i Aberdaron gyda Kelvin Jones yn gynnar yn y bore ar Fai 3ydd 1992 i weld crëyr y gwartheg oedd wedi ei weld yno y diwrnod blaenorol gan griw o bobl oedd ar eu ffordd i ddal y cwch i Enlli. Roedd criw o adarwyr eisoes yno cyn i ni gyrraedd, yn edrych ar yr aderyn prin, gyda rhai ohonynt wedi trafaelio cryn bellter i'r safle. Hwn oedd y chweched cofnod o'r rhywogaeth yng Nghymru.

Ar Fedi 3ydd eleni, gwelwyd haid o 28 o grëyrod y gwartheg ar Afon Dyfi tua 40 milltir i'r de ohonom ym Mhorthmadog. Yn ystod yr wythnosau canlynol, roedd oddeutu 40 unigolyn wedi eu gweld yng Ngogledd Cymru. Nifer anhygoel o ystyried pa mor brin oedd y rhywogaeth yma ugain mlynedd yn ôl.

Mae'r crëyr y gwartheg yn dilyn patrwm gweddol debyg i'r crëyr bach gwyn pan ddaeth hwnnw yn aderyn mwy cyfarwydd yng Nghymru rai blynyddoedd yn ôl bellach. Mewn cyfnod o ugain mlynedd fe newidiodd ei statws o fod yn aderyn prin i fod yn ymwelydd cyson yn ystod y cyfnod mudol i fod yn aderyn cyfarwydd mewn niferoedd da drwy'r flwyddyn ac sydd bellach yn nythu yma.

Bellach mae crëyr y gwartheg yn nythu mewn sawl man yn Lloegr. Cafwyd clwydfa o dros 600 o unigolion yn Shapwick Heath yng Ngwlad yr Haf yn ystod Medi 2023! Tybed faint o flynyddoedd fydd yn rhaid i ni aros nes y bydd crëyr y gwartheg a'r crëyr mawr yn nythu ar lan Afon Glaslyn?

Tra byddaf, wna'i fyth anghofio gweld pedwar o 'grëyrod gwyn' yn y caeau wrth y Cob Crwn ar Dachwedd 4ydd, 2023. Ar ôl codi fy sbienddrych, sylwais mod i'n edrych ar un crëyr gwyn bach, un crëyr mawr gwyn a dau grëyr y gwartheg! Tair rhywogaeth o grëyrod gwyn gyda'i gilydd! Pwy fasa wedi dychmygu gweld yr olygfa fythgofiadwy honno ugain mlynedd yn ôl?



**Elfyn Lewis**

# *Atgofion Adaryddol*

Mae gan pawb ei atgofion - melys fel arfer, ac weithiau fel arall - o adar o bob math, a hynny, mae'n siwr gen i, yn cychwyn o gyfnod cynnar iawn yn eu bywydau. Wel, dyma gymryd y cyfle i rannu efo chi rai o'm hatgofion adaryddol personol i, rhai sydd wedi gadael argraff arna'i gydol f'oes – rhai doniol, difrif, a diddorol (gobeithio).

***Gwyddau***

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn pan yn blentyn, adra ar y ffarm (ar lethrau Bwlch Mawr, uwchlaw Clynnog), oedd pan fyddai'r cywion gwyddau yn deor o'r wyau dan yr ŵydd adeg y Pasg. Byddai nhad yn peryglu ei fywyd, yn wyneb clagwydd a gŵydd eitha amddiffynnol, yn eu casglu a dod â nhw mewn bocs i ddiogelwch y tŷ. Fel arall mi fyddai'r llygod mawr yn siwr o gael gafael ar amryw ohonynt yn eu dyddiau cyntaf.

Pethau bach melyn fflyfflyd gyda'u galwadau bach soniarus yn hyfryd i'r glust. Byddwn yn chwarae hefo nhw a'u hanwylo am oriau. Ond eu menthyg am gyfnod byr fyddwn yn ei gael a byddwn yn teimlo'n drist iawn pan oeddent yn mynd yn ôl at eu rhieni.

Buan iawn y byddent yn tyfu a magu plu, a throi'n wyddau fel eu mam a'u tad. Byddai fy agwedd wedi newid erbyn hynny am y byddai'r clagwydd yn arbennig, a'r ŵydd hefyd, a hydnoed y cywion ar ôl iddyn nhw dyfu i'w llawn faint, yn chwythu'n fygythiol arna'i ('Th-th-th-th-ib!) a'r clagwydd hydnoed yn ymosod! Do, fe gefais sawl pigiad poenus ar fy nghluniau a mhen ôl, ac aml i drawiad adain ganddo cyn iddo fynd yn ôl at y lleill i glochdar ei fuddugoliaeth a derbyn clegar o ganmoliaeth gan ei deulu.

Ar y ffarm, gŵydd fyddem ni'n ei chael i ginio Dolig yn y dyddiau hynny, nid twrci fel y rhan fwyaf o bobl y pentra. Un rheswm oedd bod y saim gŵydd yn gynnyrch pwysig o'r achlysur – mor ddefnyddiol at sawl pwrpas. Cyn y Dolig un flwyddyn fe ofynnais i mam "Pam na laddwch chi'r b….i clagwydd 'na?". A'r ateb gan fy nhad oedd: "Na, mae ishio'r clagwydd i fod yn dad i gywion bach y flwyddyn nesa."


*Brân wen*

***Yr hen frân wen***

Anodd iawn oedd imi wneud unrhyw ddrygau i lawr ym mhentra Clynnog heb i fy rhieni ddod i wybod. A phan fyddwn yn gofyn pwy oedd wedi achwyn, yr ateb fyddai: "*O, ryw hen frân wen dd'eudodd wrthom ni*".

Meddyliwch felly am fy nheimladau pan ddaeth brân fraith i'r buarth un diwrnod – un liwcistaidd, frown golau, oedd â'r du heb ddatblygu'n iawn arni. Roeddwn yn hollol sicr mai hon oedd yr hen frân wen gythraul honno oedd yn sbragio am fy nghamweddau i fy rhieni!

Fe driais i bob sut i'w dal hi. Rhoi ŷd ar lawr y sgubor i geisio ei denu hi a rhai o'r brain eraill duon i mewn i'r adeilad fel y gallwn gau'r drws i'w dal, ond methu. Roedd yr adar yn llawer rhy gall. Dull arall oedd pric i ddal gogor i fyny, rhoi ŷd ar lawr dani, a llinyn hir yn sownd wrth waelod y pric. Gallwn ddal adar to a ji-bincs yn hawdd trwy'r dull hwn, gan aros iddyn nhw fynd o dan yr ogor a rhoi plwc sydyn i'r llinyn, fel byddai'r ogor yn disgyn a dal y deryn. Ond na, weithiodd hyn ddim chwaith. Fe ddaliais bioden, ond nid y brain – roedd y rheiny yn rhy gryf, a chall. Fe ofynnais i fy mrawd mawr ei saethu efo'i wn .22, ond y cyngor ge's i gan hwnnw oedd i beidio gwneud drygau, fel na fyddai gan yr hen sbragar o frân wen ddim byd i'w riportio!

***Y cyw estrys***

Tu draw i Gae Cefn Tŷ roedd y Weirglodd, oedd yn glytwaith o borfa llawn blodau, a rhannau yn wlyb gyda brwyn. Byddai gylfinir ('glyfinir' ddywedem ni) yn nythu yma bob blwyddyn a byddem yn cymryd un ŵy i'w ffrïo bob tro, a neis iawn oedd o hefyd (byddai wyau sguthan yn flasus iawn hefyd). Pan fyddai'r cywion yn deor byddent yn cerdded o gwmpas yn dal pryfed a byddwn innau, o'u gweld, gyda'u coesau a gyddfau hirion a phigau byr yn meddwl yn siwr mai cywion estrys oedden nhw.

Fe ddaliodd fy mrawd un ohonyn nhw un tro a dwad â fo adra i'w ddangos. Roeddwn wedi gwirioni efo'r cyw estrys hwnnw, ond yn gorfod derbyn mai ei fenthyg am ychydig iawn o amser yr oeddwn yn ei gael, cyn iddo gael ei ddychwelyd i'r Weirglodd. Unwaith y'i gollyngwyd fe stwffiodd i'r gwair hir a diflannu o'n golwg yn sydyn iawn. Mae cuddliw hynod o effeithiol gan adar sy'n nythu ar y llawr, a'u cywion.



*Cyw estrys(!)*

***Dryw wen***

Pan yn blant, doeddem ni ddim yn gwahaniaethu rhwng rhai o'r teloriaid: dryw wen oedd ein henw arnyn nhw i gyd, yn cynnwys y telor helyg a'r siff-saff.

Cefais un o brofiadau mwyaf cofiadwy fy mywyd pan oeddwn tua 9 oed efo un o'r adar bach hyn – telor helyg fel mae'n digwydd. Yn y tymor nythu fyddwn i ddim yn dilyn y ffordd arferol adra, sef dringo i fyny'r 'ffordd ddrwg' oedd yn arwain igam-ogam i fyny'r allt o'r ysgol gynradd, onibai ei bod yn bwrw glaw. Yn hytrach, byddwn yn dilyn llwybr hirach a difyrrach fyddai'n mynd heibio tai cyngor Llwyn y Ne, a dilyn y Llwybr Crydd at Twll Megan [hen waith manganîs

oedd hwn; Twll Mango yn wreiddol mae'n siwr]. Yna trwy giât fechan at y garreg elwir yn Gadair Eben Fardd, lle byddai'r hen fardd hwnnw yn dod i fyfyrio a chyfansoddi. Eban sefydlodd y Coleg Diwinyddol yn Festri Capel Ebeneser yng Nghlynnog – y 'ffatri sgethwrs' ar lafar, ac a ddaeth yn ganolfan i Gymdeithas Hanes Uwchgwyrfai yn ein dyddiau ni. Dilyn nant fechan wedyn, oedd â choed cyll, gwern a helyg o bobtu iddi, ynghyd ag eithin a brwgaitsh. Lle da iawn am nythod.

Un diwrnod braf, wrth ddilyn yr afon fach, fe ddaeth galwad natur. Felly dyma stwffio i ryw lwyn i droi fy nghlôs. Ac yn fanno yr oeddwn i, ar fy nghwrcwd yn gwneud fy musnes, pan glywais i gân bersain telor helyg uwch fy mhen. Y peth nesa, dyma'r deryn bach yn dod yn nes, a glanio ryw lathen i ffwrdd, cyn dod i sefyll ar frigyn ddim mwy na throedfedd o'm blaen. Roeddwn wedi fy nghyfareddu, yn cael creadur bach mor hyfryd ac annwyl mor agos ata'i. Fe fuodd yno am ryw funud neu ddau yn edrych arna'i i fyw fy llygaid, ac yn fy astudio yn ofalus, gan feddwl, mae'n siwr gen i: "Be gythraul ydi hwn tybed?"



*Telor helyg yn telori. Sylwch mai coesau brown sydd ganddo*

Roedd yn brofiad gwefreiddiol a bythgofiadwy, ac yn fy atgoffa erbyn hyn o brofiad Ted Breeze Jones un tro. Roedd Ted mewn cuddfan o sachau yn ceisio cael lluniau o nyth siff-saff, os ydw i yn cofio'n iawn, pan ddaeth y deryn bach i mewn o dan y sachau ato fo a sefyll ar ei droed i astudio pwy oedd wedi gosod ei hun mor agos i'w nyth.

Profiad anhygoel ydi cael deryn bach yn dod, mor ddi-ofn, i gael golwg arnoch. Byth ers hynny y telor helyg bach, â'i gân fach soniarus, ydi fy hoff aderyn yma yng Nghymru.

Flynyddoedd yn ddiweddarach fe ddeuthum ar draws stori werin o ddwyrain Affrica am y deryn bach hwn – stori Timba. Mae'n siwr gen i bod y rhan fwyaf ohonoch wedi fy nghlywed yn adrodd y stori hon bob mis Ebrill neu ddechrau Mai pan fydd y teloriaid bach yn cyrraedd yma o Affrica. Siawns y byddaf yn ei hadrodd eto pan ddaw'n dymor.

***Brân goesgoch***

'Deryn arall Cymreig yr wyf yn hoff iawn ohono ydi'r frân goesgoch (brân *bicoch* yw ei henw yn Llŷn). Roedd ambell bâr yn dod draw i'n ffridd ni ar lethrau Bwlch Mawr o bryd i'w gilydd, ac weithiau i'r caeau yn is i lawr. Mae'n debyg mai o ardal Nant Gwrtheyrn yr oedden nhw wedi dod – wedi crwydro ar hyd llethrau'r Eifl a draw ar hyd Gyrn Ddu a Gyrn Goch nes cyrraedd ffriddoedd Bwlch Mawr uwchlaw Clynnog a Chapel Ucha. Roedd eu cri mor nodweddiadol a'r pigau a

choesau cochion mor drawiadol nes ei bod yn anodd iawn peidio'u gwerthfawrogi.

Roedd sawl un o hynafgwyr y pentre yn cofio cyfnod pan fyddai rhai yn cymryd cywion brain coesgoch o'u nyth a'u dofi, a hydnoed yn eu dysgu i yngan ychydig o eiriau – rhegfeydd fel arfer! Roedd yna hydnoed ddosbarth yn Sioe Nefyn yn y 1930au am y frân goesgoch orau, a byddai cystadleuaeth frwd rhwng chwarelwyr Nant Gwrtheyrn a Threfor am hynny. 'Wn i ddim be fyddai'r canlyniad petai un o'r brain yn rhegi ar feirniad y gystadleuaeth – mae'n dibynnu os oedd o'n ddyn capel neu beidio mae'n siwr gen i.


*Teulu o frain goesgoch*

Cofio mynd i gastell Caernarfon un tro, tua diwedd y 1950au, efo cyfaill o'r pentre, Dic John. Bryd hynny roedd yna frân goesgoch eitha dof yn byw yno, ac yn ffefryn gan bobl y dref. Fel yr oeddem yn eistedd ar fainc ar y lawnt ynghanol y castell, pwy ddaeth a glanio ar gefn y fainc rhyngthon ni ond y frân, a dechreuodd grawcian am damaid i'w fwyta. Roeddem wedi gwirioni ei bod mor ddof, a dyma Dic yn dweud: "Mi ga'i hon rwan", a chythru yn sydyn amdani, gyda'r bwriad o'i stwffio dan ei gôt i fynd â hi adra. Ond roedd yr hen goesgoch yn amlwg wedi arfer efo'r fath driciau, a'r cwbwl gafodd Dic oedd andros o bigiad hegar yn ei law nes oedd gwaed yn llifo! Gwaetha'r modd i ni roedd un o geidwaid y castell wedi gweld yr hyn ddigwyddodd ac fe gawsom nid yn unig gerydd go hegar ganddo ond ein hel o'r castell yn ogystal!

Ydi, mae'r frân goesgoch yn medru defnyddio ei phig fel arf effeithiol iawn. Stori arall gan Ted Breeze oedd honno am chwarelwr o Stiniog oedd wedi magu dau gyw coesgoch. Roedd ganddo gi hefyd, daeargi ar gyfer hela gwningod. Ond druan o'r ci. Bob tro y byddai y gŵr hwn yn rhoi platiad o fwyd ar lawr iddo, fe ddeuai'r ddwy frân i ddwyn y bwyd. Byddai un frân yn ymosod ar y ci, a'i bigo yn ei drwyn, tra byddai'r llall yn bwydo. Yna, byddent yn newid drosodd, a byddai'r un fu'n bwydo yn cadw'r ci draw tra byddai'r llall yn cael ei thro. Dyma gydweithrediad effeithiol iawn. Dim rhyfedd bod teulu'r brain yn cael eu hystyried ymysg y callaf o'r holl adar.

Pan euthum i weithio i Blas Tan y Bwlch, ddiwedd y 1970au, a rhedeg cyrsiau adaryddol yn Saesneg a Chymraeg (Byddai Ted yn dod bob blwyddyn i gynnal cwrs penwythnos Cymraeg ar adar), byddai'n bleser mynd i Drwyn Cilan i weld y gwylogod a llursiaid yn nythu ar y clogwynni ac, wrth gwrs, y brain coesgoch yn dawnsio ar yr awel. Byddwn yn sicr o ddweud wrth y Saeson: *"I bet you're chuffed seeing those beauties"!*

***Adarydda yn Saesneg***

Roedd yn rhyfedd, a chwithig iawn ar adegau, gorfod cynnal cyrsiau adaryddol

a byd natur yn Saesneg ym Mhlas Tan y Bwlch yn fy nyddiau cynnar yno. Ond buan y daeth pethau i drefn wrth i breswylwyr y cyrsiau ddod i ddeall a derbyn fy ffordd a'm geirfa i wrth enwi adar.

Daeth *'cottage crow'* yn enw derbyniol ar y frân dyddyn, *'wiggly-corn'* am y gornchwiglen, a doedd dim angen ffurf wahanol ar y ji-binc. Ond fe roddais y gorau i un disgrifiad ddefnyddiais i o bâr o ditws mawr, pan ddywedais, heb feddwl: *"there's a fine pair of tits in that bush"*, a chael ryw hen olwg ddigon rhyfedd gan rai oedd ar y cwrs!

***Adar y byd***

Bûm yn lwcus i gael cyfle i ymweld â gwahanol rannau o'r byd, a chael cyfle i werthfawrogi rhai o'r adar yn y llefydd hynny. Braint hefyd oedd bod yn rhan o'r panel fu'n safoni, a bathu yn aml iawn, enwau Cymraeg ar adar y byd. Mae'r rhestr hon, yn cynnwys tua 10,000 o enwau, bellach i'w gweld ar wefan *llennatur.com*, Cymdeithas Edward Llwyd, gyda chyswllt iddi ar wefan ein Cymdeithas ni.

Dyma rai o fy hoff adar tramor, rhai a gyfarfyddais ar fy nhrafals (mae disgrifiadau llawnach i'w cael yn rhai o ôl-rifynnau Llygad Barcud):

***Portiwgal***

Bûm sawl gwaith yn y 1990au a dechrau'r 2000au ar wyliau teuluol i'r Algarve, sydd yn ardal hyfryd ac amrywiol ar arfordir deheuol Portiwgal.

Yr aderyn hyfrytaf welais i yno, ac a oedd yn lled gyffredin yn yr ardal, oedd y bioden adeinlas (*Cyanopica cyanus*) sydd ddim yn unig yn eithriadol o hardd, ond yn osgeiddig iawn ac yn llawer anwylach na'n pioden ddu a gwyn swnllyd a phowld ni.

Ond y difyrraf o adar Portiwgal oedd y gorsiar (*Porphyrio porphyrio*). Mae hon, sy'n un o deulu'r gwtiar a'r iâr ddŵr, ond yn dipyn mwy na'i pherthnasau Cymreig –yn agos o ran ei maint i iâr fuarth fferm, gyda phig coch trawiadol a choesau gweddol hir. Mae i'w chael ar byllau a llynnoedd, fel ei pherthnasau Cymreig, ond sydd yn cynnwys rhai o'r pyllau dŵr ar y meysydd golff niferus yn yr Algarve. Ond prin y caiff y gorsiar groeso yno gan olffwyr am fod ganddi yr arfer difyr o redeg allan ar y maes golff, codi'r bêl yn ei phig a rhedeg yn ôl i'r pwll gyda hi! Roeddwn wrth fy modd yn gweld hyn, ond e'lla y byddai fy agwedd yn wahanol petawn yn olffar!




*Y gorsiar Ewropeaidd*

Yn y rhifyn nesaf, fe âf ati i hel atgofion am adarydda mewn rhannau mwy pellennig o'r byd.

**Twm Elias**

# *Troellwyr rhyfeddol Penrhyn*



Dyma fy nghofnodion o'r troellwyr mawr yng Ngwarchodfa Gwaith Powdwr, Penrhyndeudraeth yn 2023.

**23 Mai 2023** Ceiliog yn rhuglo'n uchel a symud o le i le i nodi ffiniau ei diriogaeth, cyn swatio bob yn ail yn y grug ac ar y coed cyfagos. Gwrando ar ei alwad unigryw wrth iddo hedfan o gwmpas, a'i glywed yn clapio'i adenydd i greu argraff ar ei gymar. Noson lonydd iawn a gewin o leuad yn yr awyr glir uwchben Moel y Gest.

**27 Mai 2023** Wrth iddi ddechrau tywyllu, ceiliog yn hedfan dros y rhostir, a'r clytiau gwynion ar ei adenydd yn amlwg iawn. Rhuglo arbennig o uchel wrth y gronfa ddŵr. Rhuglo i'w glywed hefyd o'r gwylltir creigiog i'r dwyrain o'r warchodfa.

**29 Mai 2023** Ceiliog yn symud o amgylch ei diriogaeth yn y gwyll, yn galw weithiau, ac yn rhuglo am gyfnodau hir. Am y tro cyntaf erioed, gallwn weld y pedwar patshyn gwyn sy'n nodweddu'r gwryw: un ar bob adain ac un ar bob ochr i'w gynffon. Tylluan frech yn hwtian. Golygfeydd trawiadol o gopaon miniog Eryri. Trên yn nadreddu dros Bont Briwet, a thân gwyllt anghydnaws yn goleuo'r awyr o gyfeiriad Portmeirion.

**3 Meh 2023** Un ceiliog yn ei lecyn arferol, un arall wrth y gronfa ddŵr, a'r llall wrth y gweithdy ger Pont Briwet. Lleuad lawn - 'lleuad mefus gwyllt' i Genhedloedd Cyntaf Gogledd America. Minnau'n ei gwylio yn codi o dow i dow dros Foel Ysgyfarnogod. Awyrgylch arbennig iawn.

**13 Meh 2023** Gweld y troellwyr bedair gwaith heno. Daeth un o'r tu cefn imi o gyfeiriad y Pendil. Daeth un arall a chylchu'n llythrennol o fewn hyd braich imi.

**4 Gorff 2023** Cymylog a llonydd, a llawer o wybed a gwyfynod yn hedfan o gwmpas. Daeth ceiliog yn agos iawn, a digon o olau bryd hynny imi gael golwg iawn ar batrwm hynod ei blu. Treuliais bron i dri chwarter awr yn gwylio'r troellwyr yn siglo mynd ar yr awelon mor ysgafn â gloynnod byw, ac ar un adeg, hedodd ceiliog at ei nyth gan alw'n gynnil. Cododd yr iâr, a bu'r ddau'n hedfan gyda'i gilydd yng nghyffiniau'r nyth. Sgrech iasol tylluan wen yn hela ar lan afon Dwyryd. Glaniodd ymysg y creigiau i'r dwyrain o'r Gwaith Powdwr cyn dychwelyd i hela ar lethrau'r Gwaith, a dod o fewn oddeutu decllath imi.

**25 Gorff 2023** Dim chwa o wynt, a bob hyn a hyn, y troellwyr yn saethu i fyny i'r awyr, ac wrth gipio gwyfyn neu wybedyn yn creu cysgodluniau rhyfeddol ar gefnlen y lleuad: hithau'n gwasgaru ei golau ar wyneb y dŵr draw wrth Ynys Gifftan. Tri throellwr yn hedfan yn isel uwchben eu nythle wrth iddi ddechrau tywyllu'n go-iawn – ceiliog, iâr a chyw oedd ar fin gadael y nyth. Cawn yr argraff fod yna o leiaf saith troellwr yn y warchodfa erbyn hyn, wrth gynnwys y rhai ar y rhos uchaf a'r rhai ar y llethrau is wrth Bont Briwet.

**Ieuan Bryn**

# *Adar yn nyddiaduron William Bulkeley*

Gyda *Llygad Barcud* yn dathlu'r hanner canfed rhifyn pa ffordd well i ddathlu nag edrych yn ôl. Ond rwyf am edrych yn ôl tipyn pellach na 2004. Rwyf am fwrw golwg ar gyfeiriadau at adar yn nyddiaduron William Bulkeley, Brynddu, Llanfechell, Ynys Môn. Mae ei ddyddiaduron yn cael eu cadw dan ofal Archifau Prifysgol Bangor. Mae'r dyddiaduron yn gofnod pwysig o fywyd gwledig ar Ynys Môn yn y 18fed ganrif. Mae yna ddwy gyfrol, y gyfrol gyntaf ar gyfer 1734-43 a'r ail 1747-60. Mae'n debyg bod trydedd gyfrol (1743-47) ond nid yw hon wedi goroesi. Mae'r ddwy gyfrol sydd wedi goroesi yn cynnwys dros fil o dudalennau gydag ysgrifen daclus William Bulkeley yn cofnodi bywyd y sgweiar o Brynddu, Llanfechell.

Mae mwyafrif y dyddiaduron yn cofnodi materion gwledig ac amaethyddol megis dyddiadau dechrau hadu, aredig neu gynaeafu. Cofnodir hefyd gyflog gweision a llafurwyr a phris cynnyrch yn y marchnadoedd lleol. Fe nodir hefyd y tywydd o ddydd i ddydd, yn arbennig felly gyfeiriad y gwynt. Roedd Bulkeley yn sylwebydd craff o fyd natur o'i gwmpas ac mae'r dyddiaduron yn frith o gofnodion byd natur.

Ymysg y cofnodion hyn, ceir nifer o gofnodion am wahanol rywogaethau o adar yn y dyddiaduron. Er yr holl gofnodion, prin iawn yw'r rhywogaethau sydd yn cael eu henwi. Yn aml iawn fe gofnoda Bulkeley enw'r teulu yn hytrach nag enw penodol. Ni ddeuthum ar draws gofnod o rai o'n hadar mwyaf cyffredin heddiw, er enghraifft, dryw, jac do na drudwen. Ysbeidiol yw'r cofnodion ac yn aml ceir cyfeiriad at y tywydd neu hela wrth y cofnod. Mae'n amlwg hefyd bod Bulkeley yn cadw rhai rhywogaethau er mwyn eu magu ar gyfer eu bwyta neu er mwyn cyflenwad o wyau. Ceir cyfeiriadau at "ducks" a "geese" yn aml yn y dyddiaduron. Yn ei chyfrol *Portraits of an Island-Eighteenth Century Anglesey*(1987) noda Helen Ramage

> *"Turkeys which had been found domesticated in Mexico as early as 1578 and introduced into Europe soon afterwards are rarely mentioned in Anglesey diaries and accounts."*

Ceir un cofnod am dyrcïod yn y dyddiaduron ond diwedd anffodus fu iddynt;

> *"3rd July" (1736) "The Wind E. & N.E. a very cold rainy morning till 10 or 11 there fell such heavy cold rains 2 or 3 hours before Day, that it killed all my young Turkies that were 3 months old."*

Fel y nodwyd ceir cyfeiriad at y tywydd yn aml wrth y cofnodion ac mae arfer Bulkeley o sylwi ar effaith y tywydd i'w weld yn y cofnodi. Yn aml mae yn nodi sut mae'r tywydd yn effeithio ar ymddygiad neu symudiad adar. Mae'r cofnodi hefyd yn dangos pa mor ymwybodol o ffenomena mudo rhai rhywogaethau oedd

Bulkeley tra bod un cofnod penodol am y gog yn adlewyrchu cred yr oes ynglŷn ag ymfudo.

Deuthum ar draws ugain o gofnodion am wenoliaid. Mae Bulkeley yn nodi sawl tro yn y dyddiaduron y dyddiad cyntaf y gwelodd wennol gynta'r flwyddyn;

> *"28$^{th}$ March" (1749) "I saw To Day a Swallow in Cae'r Penrhyn and I do not remember ever to have seen any so zzz before"* {? zzz = "early"}
> *"5$^{th}$ April" (1752) "The Wind N.W. calm, Sun shiny, fair and warm all day, notwithstanding I have not seen neither Cuccow nor Swallow this year."*
> *"27$^{th}$ April" (1758) "To Day I first ~~hear~~ Saw the Swallow this year."*

Mae hefyd yn nodi cofnodion o wenoliaid yn "hwyr" yn y tymor.

> *"30$^{th}$ Sept" (1748) "The Wind S. blowing high and stormy and very cold all day, yet sun shiny & dry. Saw a swallow This Day also."*
> *"16$^{th}$ Oct" (1759) "I Saw to day a – Swallow not frequently seen this Month:……"*

Mae'n amlwg ei fod yn gallu gwahaniaethu rhwng y gwahanol rywogaethau o wenoliaid fel y dengys y ddau gofnod yma. Cyfeirio at wennol y bondo "Marten"( *Delichon urbicum*) mae'r cofnod cyntaf tra bo'r ail yn cyfeirio at wennol y glennydd (*Riparia riparia*)

> *"18$^{th}$ April" (1739) "To Day I saw the first Swallow this year; saw likewise a Marten, which bird all other years appeared usually a week or 9 days after the Swallows."*
> *"11$^{th}$ April" (1751) "To Day I saw the first swallows, but they were of the smallest, brown kind."*

Yn union fel roedd gweld gwennol gynta'r flwyddyn yn bwysig, roedd clywed y gog yn ddigwyddiad a haeddai gael ei gofnodi. Ceir nifer o gofnodion sydd yn cofnodi gweld gwennol a chlywed y gog gyntaf ar yr un diwrnod.

> *"16$^{th}$ April" (1743) "To Day I first heard the Cuckow, & saw the first Swallow this year."*

| | **Gweld gwennol gynta'r flwyddyn** | | **Clywed cog gynta'r flwyddyn** |
|---|---|---|---|
| **1734** | Ebrill 7 | | |
| **1736** | Ebrill 2 | | |
| **1739** | Ebrill 18 | **1739** | Ebrill 20 |
| **1740** | Ebrill 16 | | |
| **1741** | | **1741** | Ebrill 22 |
| **1742** | Ebrill 17 | **1742** | Ebrill 17 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1743** | Ebrill 16 | **1743** | Ebrill 16 |
| **1748** | Ebrill 24 | **1748** | Ebrill 23 |
| **1749** | Mawrth 28 | **1749** | Ebrill 18 |
| **1750** | Ebrill 18 | **1750** | Ebrill 12 |
| **1751** | | **1751** | Ebrill 16 |
| **1752** | Ebrill 7*(yn Nulyn)* | **1752** | Ebrill 18 |
| **1756** | | **1756** | Mai 4 |
| **1757** | Ebrill 19 | | |
| **1758** | Ebrill 27 | **1758** | Ebrill 28 |
| | | **1759** | Ebrill 24 |
| **1760** | Ebrill 15 | **1760** | Ebrill 22 |

Ond, o'r holl gofnodion am y gog, hwn yw'r mwyaf diddorol;

> *"20$^{th}$Nov" (1741) "To Day My Cuckow dyed that had been fed in the house since July last; however, as they have a notion of those birds reviveing again in the spring, she was put in a basket of feathers & hung up in the Kitchen near the Chimney."*

Heblaw y cofnodion am y wennol a'r gog ceir gyfeiriadau at adar tir eraill hefyd. Fel y soniwyd roedd Bulkeley yn sylwi ar effaith y tywydd ar y byd o'i gwmpas ac roedd effaith y tywydd ar adar yn cael sylw ganddo;

> *"29$^{th}$Dec" (1737) "The Wind S. dark, cloudy weather, cold & raw, but make no rain. The Small birds flock in abundance, foreshewing some hard weather, shot 8 buntings at one shott."*

{Tybed beth oedd y cymhelliad i saethu'r "8 bunting"?}

Mae mwyalchod a bronfreithod yn dal ei sylw hefyd a'r newid tywydd yn y gwanwyn, hynny o bosibl gan fod eu cân yn glywadwy adeg yna o'r flwyddyn?

> *"26$^{th}$ February" (1748) "The Wind W. pretty calm & very temperate, cloudy & small mizling rain frequently which was very refreshing: The Black Birds and – Thrushes soon perceived the change of weather."*
> *"6$^{th}$ March" (1753) "The Wind S. calm, sun shiny, fair and warm all day as if it was a day in June: Black - birds & Thrushes were singing even after Sun set."*

Deuthum ar draws tri chofnod am socan eira, y tri chofnod i gyd yn ystod mis Ebrill pan oedd yr adar yn mudo yn ôl i'w hardaloedd magu.

> *"20$^{th}$April" (1737) "The Wind E.S.E. very calm & warm, with a fine dewy rain in the morning. my people all this week hitherto — sowing Barley at*

*Cnewchdernog. Saw this morning a flight of Fieldfares in the lower Garden, 20 or more in number, which I take notice of, because it is the received opinion that they are Birds of Passage, and never stay here in breeding time."*

*"April 14th" "(1739)."The Wind N. blowing fresh, and very cold and scorching – my people all this week at the same work of plowing for and sowing Barley, tho the ground I now plow is both wet & cold, & should long — rains. soon ensue, would be worth but little, but haveing a great of unfinished, & haveing done all my dry ground, I must keep to it to see if I can finish by May. saw a great flight of Fieldfares to day."*

*"13th April" (1751) "The Wind N. W. very calm, Sun shiny fair and warm all day – My people have been these 4 last days plowing for Barley: The Birds of Passage have not left our Countrey yet; I saw some Fieldfares this morning: pd. i4d. for a side of Lamb and the head"*

Dim ond un cofnod am adar ysglyfaethus y deuthum ar ei draws. Wedi dweud hynny mae'n gofnod hynod ddiddorol am ymddygiad adar ysglyfaethus ac yn adlewyrchiad o'r oes oedd ohoni.

*"24th June" (1736) "A very remarkable thing happened to day which for its oddness & unnaturalness deserves to be remembered. Dick my Gardiner a day or 2 ago observed a Male Sparrow-Hawk to pursue a bird thro one of the Crevices into the Barn, there, he & another got, surprized & took him, clipped his wings & cut his talons, & brought him to the house, & I put him in a Cage where he remained a Day or 2 without offering to Eat any thing, and being loath to keep the poor creature to starve & pine away, I brought him into the Orchard, & laid him down Just under the tree where he had a Nest & 2 young ones that were pretty big, there I left him, & returning afterwards about 4 or 5 hours to the same place, I found that the Female Hawk had killed him, feathered, & pulled him to pieces, & fed the young ones with his flesh, nothing remaining on ye ground but a heap of feathers, a great many of which lay about the Nest, being carried there with the flesh"*

Ychydig dros wythnos yn ddiweddarach mae'n cofnodi-

*"3rd July" (1736) "The Wind E. & N.E. a very cold rainy morning till 10. or 11. There fell such heavy cold rains 2 or 3 hours before. Day, … killed the young Hawks in the Nest that were ready to fly & filled all the high Ways with Water."* *{Yr union ddiwrnod y lladdwyd y tyrcïod gan y glaw trwm ac oer.}*

Er nad oes nifer fawr o gofnodion am adar, mae'r rhai sydd yn y dyddiadur yn ddiddorol ac yn dadlennu llawer am William Bulkeley a'r byd o'i gwmpas.

**Dewi Lewis**

